

Cylchlythyr | Circular

Canllawiau'r Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach

Dyddiad: 08 Rhagfyr 2021
Cyfeirnod: W21/38HE
At: Gadeiryddion Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach, Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, Penaethiaid colegau addysg bellach yng Nghymru
Ymateb erbyn: Strategaeth Partneriaethau YE: **28 Ionawr 2022**
Datganiad o fwriad sefydliadau YE: **28 Ionawr 2022**
Cynllun Gweithredu'r Partneriaethau YE: **10 Mehefin 2022**
Cyswllt Enw: Savanna Jones
Amanda Phillips
E-bost: savanna.jones@hefcw.ac.uk
amanda.phillips@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau'r Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach ac yn gwahodd strategaethau a chynlluniau gweithredu Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach a datganiadau o fwriad Ymgynraedd yn Ehangach oddi wrth sefydliadau a reoleiddir.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu Canllawiau'r Rhaglen Ymgynghoriad yn Ehangach (YE) ac yn gwahodd strategaethau a chynlluniau gweithredu Partneriaethau YE, a datganiad o fwriad YE gan sefydliadau a reoleiddir ar gyfer cyfnod y strategaeth, 2022/23-2024/25.
2. Bydd y cylchlythyr o ddiddordeb i Bartneriaethau YE a'u haelodau, sefydliadau a reoleiddir, y rhai sy'n gyfrifol am ehangu mynediad a chynlluniau mynediad a ffioedd, a chynllunwyr mewn addysg bellach ac uwch. Efallai y bydd y canllaw hwn o ddiddordeb i ddarparwyr addysg eraill.
3. Defnyddiwyd ymgynghoriad technegol YE yn sail ar gyfer y canllaw, ynghyd ag ymglymiad a chynghor gan ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid. Nodir ein hymateb i'r ymgynghoriad yn **Atodiad C**. Nodir newidiadau allweddol i'r Rhaglen YE yn dilyn yr ymgynghoriad yn **adran 3**.
4. Darperir canllawiau YE mewn chwe adran ar:
 - i. Raglen YE CCAUC;
 - ii. Ymgynghoriad YE;
 - iii. newidiadau i'r Rhaglen YE yn 2022/23-2024/25;
 - iv. strategaeth a chyllid y Rhaglen YE ar gyfer y cyfnod 2022/23-2024/25;
 - v. canllawiau ar strategaethau a chynlluniau gweithredu Partneriaethau YE;
 - vi. canllawiau ar ddatganiadau bwriad YE sefydliadau a reoleiddir.
5. Rydym yn cydnabod y cyd-destun yr ydym yn cyhoeddi'r canllawiau hyn ynddo:
 - yn dilyn cyfnod lle mae sefydliadau, staff a myfyrwyr wedi profi tarfu ar ddysgu ac addysgu oherwydd y pandemig;
 - wrth i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\) a sefydlu'r Comisiwn newydd o 2023](#);
 - wrth i Lywodraeth Cymru weithredu [Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr](#); a
 - chyn gweithredu'r [Cwricwlwm newydd i Gymru](#).
6. Hyd y bo modd, mae'r canllawiau hyn yn rhoi ystyriaeth i effaith y rhain a datblygiadau polisi eraill sy'n dod i'r amlwg er mwyn sicrhau bod y Rhaglen YE yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn gynaliadwy ac yn gwneud cyfraniad effeithiol at ehangu polisi mynediad ac addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru.
7. Er mwyn gwneud y canllawiau hyn yn fwy hygyrch rydym wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr atodiadau canlynol:
 - **Atodiad A:** cefndir i'r Rhaglen YE;
 - **Atodiad B:** ein proses o ddatblygu ac ymgynghori ar strategaeth y Rhaglen YE, a chynnwys pobl ynddi;
 - **Atodiad C:** crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad a'r modd yr ydym wedi rhoi ystyriaeth iddynt;
 - **Atodiad D:** y cynnig YE cenedlaethol;

- **Atodiad E (a a b):** Templedi strategaeth a chynllun gweithredu partneriaethau;
- **Atodiad F:** templed datganiad o fwriad sefydliadau a reoleiddir.

Adran 1: Rhaglen Ymgynghoriad yn Ehangach CCAUC

Y Cefndir

8. Ceir cefndir y Rhaglen YE yn **Atodiad A**.

Y cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi

9. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y Rhaglen YE yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:
 - y [Ddeddf Cydraddoldeb \(2010 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol \(31 Mawrth 2021\)](#);
 - [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(2015\)](#);
 - [Deddf Addysg Uwch \(Cymru\) 2015](#);
 - [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#);
 - [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#);
 - [Deddf Safonau'r Gymraeg \(2018\)](#);
 - [Cymraeg 2050](#): Miliwn o siaradwyr Cymraeg;
 - [Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2021](#);
 - [Cynllun Cydraddoldeb Strategol CCAUC ar gyfer 2020-2024](#); ac
 - Ymagwedd [strategol CCAUC at Ehangu Mynediad](#).
10. Mae'r Rhaglen YE yn cyfrannu at ymateb CCAUC i ehangu mynediad drwy gefnogi ysgolion, colegau, cymunedau a dysgwyr â blaenoriaeth. Mae [llythyr cylch gwaith 2021-22 CCAUC](#) gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys dwy adran ar gefnogi dysgwyr wrth bontio i AU o ysgolion a cholegau (para 15) ac ar gefnogi datblygiad y cwricwlwm ysgol (paragraffau 33-35).
11. Dyma'r ddwy thema allweddol yn Rhaglen YE 2023 i 2025:
 - cefnogi sefyllfaoedd lle ceir tarfu ar ddysgu yn unol â [Chanllawiau Adnewyddu a Diwygio](#) Llywodraeth Cymru; ac
 - alinio â'r [pedwar diben](#) a'r [chwe maes dysgu](#) yng [Nghwricwlwm Cymru](#).

Adran 2: Ymgynghoriad y Rhaglen Ymgynghoriad yn Ehangach

12. Esbonnir sut rydym wedi cynnwys ac ymgynghori â phartneriaid allweddol yn **Atodiad B**.
13. Cawsom 14 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Nid oedd unrhyw ymatebion yn awgrymu y dylem wneud newidiadau sylweddol, ond cafwyd nifer o lywiau

defnyddiol, er bod yr ymatebion yn cynrychioli ystod amrywiol o safbwyntiau. Ceir crynodeb o'r themâu allweddol a godwyd gan yr ymatebwyr ac ymateb CCAUC i hynny yn **Atodiad C**. Roedd y themâu'n cynnwys:

- cadw strwythur y Rhaglen YE ac adeiladu arno;
- nodi'r buddion neu'r canlyniadau anfwriadol o safbwynt Partneriaethau YE os rhoddir blaenoriaeth i'r holl oedrannau a'r grwpiau allweddol sy'n dysgu hyd at lefel 4;
- cadarnhau'r buddion neu'r canlyniadau anfwriadol os bydd sefydliadau a reoleiddir yn ailffocysu cyfraniadau eu cynllun mynediad a ffioedd;
- awgrymu ffyrdd eraill posibl o gyflawni blaenoriaethau a strwythurau YE;
- mesur perfformiad y rhaglen YE, gan gynnwys cyfraniadau Partneriaethau a sefydliadau tuag at ehangu mynediad mewn addysg uwch; ac
- awgrymu sut y gellid defnyddio cyllid YE yn fwy effeithiol i ehangu mynediad mewn modd cydweithredol, yn rhanbarthol a thrwy Gymru gyfan.

14. Yn rhan o'r ymgynghoriad rydym hefyd wedi derbyn ymatebion yn gysylltiedig â'r Gymraeg, yr effaith ar rwymedigaethau ac amcanion a nodir yn [Neddf Cydraddoldeb 2010](#) a [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yr ydym wedi rhoi sylw iddynt, fel y nodir yn **Atodiad C**.

Adran 3: Newidiadau i'r Rhaglen YE yng nghyfnod 2023/24-2024/5 y strategaeth

15. Yn **Atodiad B ac C** rydym wedi nodi sut mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r sector wedi llywio newidiadau i'n canllawiau ar gyfer y cyfnod hwn yn y strategaeth.
16. Nodir y prif newidiadau i'r Rhaglen YE isod:

Cyfnod y Rhaglen YE: 2018/19 – 2021/22	Cyfnod y Rhaglen YE: 2022/23 – 2024/25	Adran y canllawiau
Cyllid Rhaglen YE £3.4m.	Cyllid Rhaglen YE £3.7m y flwyddyn.	Adran 4, para 19
Cyllid Partneriaeth YE £1.7m.	Cyllid Partneriaeth YE £2m y flwyddyn.	Adran 4, para 19
Partneriaethau YE: Grwpiau â blaenoriaeth hyd at 16 oed, yn cefnogi dysgwyr mewn ardaloedd MALIC hyd at ddysgu lefel 4.	Partneriaethau YE: Grwpiau â blaenoriaeth hyd at 18 oed, yn cefnogi dysgwyr mewn ardaloedd MALIC hyd at ddysgu lefel 4.	Adran 5, para 39
Rhaglen YE: Dim ffocws penodol ar	Grwpiau ychwanegol â blaenoriaeth o	Adran 5, para 19 a phara 39

amrywiaeth ac anabledd.	Bartneriaeth a sefydliadau a reoleiddir o fewn ardaloedd MALIC, i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • pobl ag anableddau; • pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig; ac • Dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a hyrwyddo diwylliannau Cymru. 	
Partneriaethau YE: Cynnig cenedlaethol YE wedi'i ddiffinio'n fras.	Cynnig cenedlaethol YE wedi'i ddiffinio'n fanylach.	Adran 5, para 47
Cyflwyniadau strategaeth a gweithgarwch y Bartneriaeth YE Integredig.	Cyflwyniadau strategaeth tair blynedd a chynllun gweithredu blynyddol y Bartneriaeth YE.	Adran 5, para 50 a 51
Cyflwyniadau strategaeth YE sefydliadau a reoleiddir.	Datganiadau o fwriad YE sefydliadau a reoleiddir.	Adran 6, para 63

17. Bydd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn creu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd erbyn 1 Ebrill 2023. Canlyniad hyn fydd diddymu CCAUC, gyda'r Comisiwn newydd, fel corff rheoleiddio, yn goruchwyllo addysg uwch yng Nghymru. Ymhen amser, byddwn yn esbonio sut y bydd y diwygiadau hyn i'r modd y caiff addysg uwch ei goruchwyllo yn effeithio ar gynlluniau mynediad a ffioedd 2023/24 ac ar ôl hynny.

Adran 4: Blaenoriaethau a chyllid y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach ar gyfer y cyfnod 2022/23 - 2024/25

18. Bydd y Rhaglen YE yn parhau i gynnwys dwy golofn. Mae'r ymagwedd dwy golofn yn cefnogi cydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch a Phartneriaethau YE, gan gynyddu adnoddau'r Rhaglen YE.

Cyllid y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach

19. O'r cyfnod hwn yn y strategaeth bydd CCAUC yn cyllido'r Rhaglen YE ar sail tair blynedd treigl, a cyn cynyddu cyllid y Partneriaethau YE i £2m y flwyddyn, yn amodol ar setliadau cyllidebol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn dylai

sefydliadau a reoleiddir barhau i gyfrannu £1.7m y flwyddyn i YE gyda'i gilydd drwy gynlluniau mynediad a ffioedd. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y Rhaglen YE fydd £3.7m y flwyddyn. Cafodd [Canllawiau Cynlluniau Mynediad a Ffioedd](#) CCAUC ar gyfer 2022/23 eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2021.

Partneriaethau YE

20. Byddwn yn parhau i gyllido tair Partneriaeth YE. Dylai pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru fod yn aelodau o Bartneriaethau YE, ac rydym yn eu hannog i ymgysylltu mewn modd rhagweithiol â'u colegau addysg bellach rhanbarthol a phartneriaid eraill. Gall partneriaid rhanbarthol eraill amrywio, ond rydym yn annog Partneriaethau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol, cyflogwyr a'u cynrychiolwyr, ysgolion, y trydydd sector a Gyrfu Cymru.
21. Bydd y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn parhau i fod yn aelodau o bob un o'r tair Partneriaeth. Dylai partneriaethau fod yn ystyriol o faich eu hymgysylltiad ar raddfa Cymru gyfan.
22. Un o'r egwyddorion yr ydym yn cadw atynt o ran cyllid y Bartneriaeth YE yw na ddylai cyllid yn ystod cyfnodau strategaeth, nac ar draws y cyfnodau hynny, ddadsefydlogi Partneriaethau'n ormodol, ac y byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol o newidiadau, gan gynnwys camau i adfachu a dal cyllid yn ôl.
23. Rydym yn ymgynghori ar wahân ar y dyraniad cyllid YE mewn ymgynghoriad ar gyllid. Ac ystyried y cynnydd o £300k y flwyddyn ar draws y Partneriaethau YE, bwriedir na fydd yr un Bartneriaeth yn derbyn llai o gyllid yn y cyfnod hwn yn y strategaeth na'r cyfnod blaenorol.
24. Wrth gadarnhau cyllid Partneriaethau YE, roedd Cyngor CCAUC "yn cefnogi'r cynnig i gyllido ar sail tair blynedd treigl, ond ychwanegodd y dylid cydnabod mai buddsoddiad mewn gweithgareddau a gyflawnir gan y Partneriaethau yw cyllid grant CCAUC, ac y byddai CCAUC yn disgwyl gweld enillion a chynnyrch clir yn sgil hynny".
25. Mae'n rhaid i Bartneriaethau ddyrannu mwyafrif eu cyllideb ar gyfer gweithgarwch blynyddol i weithgareddau parhaus hirdymor, fel y nodir yn eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu. Mae'n rhaid i bartneriaethau roi sail resymegol ar gyfer y buddsoddiad hwn a nodi swm a chanran y buddsoddiad.
26. Ni chaiff partneriaethau glustnodi mwy na 5% o'u dyraniad blynyddol craidd gan CCAUC fel cyllid wrth gefn. Mae'n rhaid i bartneriaethau gadarnhau eu bwriadau o ran gwario cyllid wrth gefn, i'w cymeradwyo gan CCAUC neu beidio.
27. Bydd dyraniadau partneriaethau ar gyfer y cyfnod hwn yn y strategaeth yn amodol ar gyflwyno strategaethau boddhaol, cynlluniau gweithredu blynyddol, adroddiadau monitro blynyddol, tystiolaeth o arfer da ac unrhyw wybodaeth bellach ac/neu ddata y byddwn yn gofyn amdanynt yn sail ar gyfer datblygu polisi ehangu mynediad, ac i fonitro hynny. Fel rheol, gwneir taliadau mewn

dau gam, ym mis Hydref a mis Mawrth bob blwyddyn. Rydym yn cadw'r hawl i ddal cyllid yn ôl ac/neu adfachu cyllid os ceir strategaethau, adroddiadau monitro blynyddol neu danwariant anfoddfaol. Disgwylir y bydd cyllid yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn, ac o fewn y cyfnod yn y strategaeth y mae'n berthnasol iddo.

28. Ac ystyried y newidiadau i addysg ôl-16 a sefydlu'r Comisiwn newydd, nid nawr yw'r adeg briodol i gyflwyno newidiadau sylweddol i'r brand YE yn ein barn ni. Fodd bynnag, mae'n bwysig hyrwyddo'r Rhaglen YE yn effeithiol. Yn ystod cyfnod y strategaeth rydym yn ymrwymo i adolygu hyrwyddo a brandiau'r Rhaglen YE ar y cyd â'r Partneriaethau YE.
29. Disgwylir i'r Partneriaethau hyrwyddo YE mewn modd amlwg, a chyfraniad hynny at ehangu mynediad mewn addysg uwch, fel y caiff ei gyllido gan CCAUC.

Sefydliadau a reoleiddir

30. Yn ystod y cyfnod hwn yn y strategaeth, rydym yn disgwyl i sefydliadau a reoleiddir roi cyfrif am yr un swm o gyllid ag a gyfrannwyd yn flaenorol at gefnogi YE drwy fuddsoddiad AU i weithgareddau YE drwy gynlluniau mynediad a ffioedd. Byddwn yn monitro cyflawniad yn erbyn eu datganiad o fwriad ac ymrwymiadau'r cynllun mynediad a ffioedd .
31. Dyma'r hyn y dylai sefydliadau ei gyfrannu i'r Rhaglen YE o 2022/23:

Sefydliad	Ymrwymiad y Cynllun Mynediad a Ffioedd
Prifysgol Aberystwyth	£147,986
Prifysgol Bangor	£160,000
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	£175,242
Prifysgol Caerdydd	£393,676
Prifysgol Abertawe	£282,332
Prifysgol De Cymru	£320,177
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	£146,052
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	£71,000

32. Byddwn yn adrodd wrth Lywodraeth Cymru ar y defnydd o gyllid cynlluniau mynediad a ffioedd i gefnogi'r Rhaglen YE.

Adran 5: Strategaethau Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach

33. Dros gyfnod 2022/23-2024-25 yn y strategaeth, byddwn yn cynorthwyo'r Partneriaethau YE i gyfrannu at ddwy flaenoriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru:

- cefnogi sefyllfaoedd lle ceir tarfu ar ddysgu yn sgil Covid-19 ([Canllawiau Adnewyddu a Diwygio](#)); a
 - chefnogi datblygiadau'r cwricwlwm newydd i Gymru, fel y nodir drwy'r diben a'r meysydd dysgu ([Cwricwlwm i Gymru](#)).
34. Byddwn yn parhau i ddisgwyl i Bartneriaethau roi'r flaenoriaeth i ddysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a rhoi ystyriaeth i ymrwymiad CCAUC i 'weithredu'n unol ag ysbryd' y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol dros y cyfnod hwn yn y strategaeth.
35. Er mwyn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau hyn, dylai'r Partneriaethau barhau i ymgysylltu â grwpiau YE â blaenoriaeth, fel y nodir yn yr adran nesaf. Dylai Partneriaethau YE ymgysylltu ag ysgolion, colegau a chymunedau lle ceir cyfrannau uchel o grwpiau sy'n cael blaenoriaeth o dan y Rhaglen YE. Rydym yn derbyn y bydd YE yn cyflenwi gweithgareddau dosbarth cyfan, ac yn monitro ymgysylltiad â grwpiau blaenoriaeth a chyfranogwyr eraill. Fel hyn, bydd Partneriaethau'n parhau i fabwysiadu ymagwedd ysgol/coleg/cymuned gyfan.
36. Byddwn yn annog Partneriaethau i adolygu eu strwythurau'n rheolaidd, ac ar ddechrau cyfnod y strategaeth.

Grwpiau sy'n parhau i gael blaenoriaeth, a grwpiau â blaenoriaeth newydd

37. Yn y cyfnod hwn yn y strategaeth, dylai'r Partneriaethau ymestyn ystod oedran y bobl y maent yn gweithio gyda nhw i gynnwys pobl ifanc hyd at 18 oed.
38. Dylai grwpiau blaenoriaeth y Partneriaethau yn y ddau gwintel isaf (40% o'r boblogaeth) ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) barhau i gynnwys y canlynol:
- pobl ifanc hyd at 16 oed; ac
 - oedolion dros 21 oed heb gymwysterau lefel 4.
39. Disgwylir i'r Partneriaethau parhau i weithio gyda dysgwyr â phrofiad o ofal a gofalwyr ym mhob grŵp oedran yn eu rhanbarth, heb gymryd WIMD mewn i ystyriaeth.
40. Yn ogystal â hynny, dylai grwpiau blaenoriaeth newydd YE, sy'n byw yn nau gwintel isaf MALIC, gynnwys:
- pobl ifanc ôl-16 mewn addysg hyd at lefel 4, yn ogystal ag oedolion heb gymwysterau lefel 4;
 - pobl ag anableddau;
 - pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig; a
 - dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau Cymru.
41. Rydym yn ymestyn yr ystod oedran am y rhesymau canlynol:

- nid yw gwaith monitro cynlluniau mynediad a ffioedd sefydliadau wedi dangos inni fod llwybrau a chymorth pontio a dilyniant clir ac effeithiol ar waith i ddysgwyr rhwng darpariaeth Partneriaethau a darpariaeth YE sefydliadau. Dim ond un sefydliad addysg uwch sydd wedi sefydlu strwythurau ffurfiol i alinio'r Bartneriaeth â darpariaeth YE y sefydliad;
 - rydym yn deall ei bod wedi bod yn heriol i rai partneriaid AB ymgysylltu â chyflawniad y Bartneriaeth tra'r oedd y grŵp oedran wedi'i gyfyngu i bobl ifanc iau nag 16 oed; a
 - bydd hyn yn cyd-fynd yn agos â'r cynigion a nodwyd yn y [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil](#).
42. Disgwylir mwy o ffocws ar amrywiaeth ac anabledd o fewn y Rhaglen YE. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar y grwpiau hyn¹.
43. Mae'r penderfyniad i gynnwys pobl ifanc dros 16 oed yng nghylch gwaith y Partneriaethau yn ymateb i nod [y Bil](#) Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) i greu cydlyniant yn y sector ôl-16. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu cysondeb â diwygiadau i'r cwricwlwm ysgol, gan alluogi'r sector i helpu dysgwyr i dyfu'n ddinasyddion ymrwymedig a mentrus, a chyfrannu at ffyniant a llesiant unigol a chenedlaethol. Mae cryfhau'r trefniadau i gydgyssylltu'r holl agweddau ar addysg drydyddol o fewn y Rhaglen YE yn gam hollbwysig er mwyn gwireddu [Gweledigaeth](#) Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Anogir partneriaethau i feithrin perthnasoedd cryf â cholegau addysg bellach yn sgil y cynlluniau wrth ddisgwyl y trosglwyddiad arfaethedig i'r Comisiwn newydd.
44. Yn y cyfnod hwn yn y strategaeth, rydym yn disgwyl i Bartneriaethau gynyddu darpariaeth i gefnogi oedolion heb gymwysterau lefel 4 a chefnogi dilyniant i ddysgu rhan-amser a sgiliau lefel uwch. Bydd effaith y pandemig a'r angen i alluogi pobl i ddysgu sgiliau newydd a sgiliau lefel uwch yn rhan o drefniadau dysgu gydol oes, a chyfraniad addysg uwch at agendâu cenhadaeth ddinesig yn flaenoriaeth i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd.
45. Dylai partneriaethau barhau i sefydlu perthnasoedd hirdymor a chynaliadwy â cholegau, ysgolion a phartneriaid a chyfranogwyr eraill, ac adeiladu ar y perthnasoedd hynny.
46. Byddwn hefyd yn parhau i annog cydweithio ar draws Partneriaethau YE, gan gynnwys drwy gyflwyno prosesau adolygu cymheiriaid.

Cynnig cenedlaethol y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach

47. Mae ein disgwyliadau diwygiedig ar gyfer y cyfnod hwn yn y strategaeth yn cynnwys gostyngiad yn nifer y gweithgareddau newydd neu wahanol, a

¹ [Sut mae coronafeirws wedi effeithio cydraddoldeb a hawliau dynol](#)

chynnydd yn nifer yr ymgysylltiadau a dysgwyr unigol, yn unol â'n cynnig cenedlaethol.

48. Mae'n rhaid i'r cynnig cenedlaethol gan Bartneriaethau YE ganolbwyntio ar godi dyheadau addysg a sgiliau, gan gynnwys ymateb i faterion cydraddoldeb dysgu, fel merched mewn pynciau STEM, a threfniadau pontio a dilyniant dysgwyr, fel y nodwyd yng nghanllawiau Adnewyddu a Diwygio Llywodraeth Cymru. Ni chaiff Partneriaethau gyllido na chyflenwi darpariaeth achrededig. Ceir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad D**.

Asesiad o strategaethau a chynlluniau gweithredu Partneriaethau

49. Bydd dau aelod Cyngor CCAUC a chynrychiolydd UCM Cymru yn goruchwylio'r broses o gymeradwyo strategaethau Partneriaethau YE i gynnig sicrwydd ychwanegol inni y bydd ein buddsoddiad yn y Partneriaethau yn esgor ar enillion a chynnyrch clir. Mae templedi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gael yn **Atodiad E (a a b)**.
50. Er mwyn ystyried yr amgylchedd newidiol o safbwynt deddfwriaethol, strategol ac economaidd-gymdeithasol y caiff y strategaethau eu gweithredu ynddo, a galluogi'r Partneriaethau i fod yn ystwyth er mwyn ymateb i angen rhanbarthol, bydd yn rhaid i Bartneriaethau YE gyflwyno cynlluniau gweithredu blynyddol i ni. Bydd cynlluniau gweithredu'n tanategu'r strategaethau ac yn cynnig mwy o fanylion i alluogi darpariaeth ddeinamig ac effeithiol drwy gydol cyfnod y strategaeth.

Strategaethau Partneriaeth a gyflwynir i CCAUC

51. Gofynnir i Bartneriaethau gyflwyno strategaeth tair blynedd inni erbyn **Dydd Gwener, 28 Ionawr 2022**. Dylid cyflwyno fersiwn electronig Microsoft Word o strategaethau'r Partneriaethau inni drwy e-bost, i Amanda Phillips (amanda.phillips@hefcw.ac.uk), ynghyd â chopi o grynodedb ac asesiad effaith cydraddoldeb y Partneriaethau.
52. Dylid cyflwyno cynllun gweithredu'r Bartneriaeth YE ar gyfer 2022/23 erbyn **Dydd Gwener, 10 Mehefin 2022**. Dylid cyflwyno fersiwn electronig Microsoft Word o strategaethau'r Partneriaethau inni drwy e-bost, i Amanda Phillips (amanda.phillips@hefcw.ac.uk).

Adran 6: Ymrwymadau Ymgynraedd yn Ehangach Sefydliadau a Reoleiddir

53. Rydym yn disgwyl i sefydliadau adeiladu ar eu hymrwymadau i YE o gyfnod strategaeth 2018/19-2021/22, ac rydym yn annog cynnwys elfennau allweddol o adroddiadau a gyflwynwyd yn rhan o gynlluniau lliniaru ffioedd ar gyfer 2018/19 yn sail ar gyfer ymrwymadau yn y cyfnod strategaeth newydd.

54. Mae un newid sylweddol i'r Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach o 2022/23 yn cynrychioli ymagwedd wahanol at natur cyfraniadau sefydliadau at y Rhaglen YE (gweler para 39, adran 5).
55. Er mwyn gallu gwireddu'r Rhaglen yn effeithiol, bydd angen ymgysylltiadau parhaus hirdymor â grwpiau blaenoriaeth YE. Dylai sefydliadau a reoleiddir gyflwyno datganiad o fwriad inni a fydd yn cyd-fynd â'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Partneriaethau YE, ac yn cyfrannu atynt. Dylai'r ymrwymadau hyn fod yn gyson â dogfennau strategol sefydliadol, gan gynnwys ymrwymadau cynllun mynediad a ffioedd, yn ogystal â strategaeth ranbarthol berthnasol y Partneriaeth YE. Mae templed o'r datganiad o fwriad wedi'i atodi yn **Atodiad F**.
56. Dylai cyfraniad sefydliadau YE a reoleiddir at y Rhaglen YE ddangos ymrwymiad i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch ac i sicrhau cyfle cyfartal, yn unol â chynlluniau mynediad a ffioedd. Dylai'r datganiad o fwriad gadarnhau cyfraniad sefydliadau at y ddarpariaeth ehangu mynediad ac allgymorth sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen YE, ac ymateb i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau CCAUC o ran ehangu mynediad, gan gynnwys yr hyn a nodir yn adran 1.
57. Byddwn yn mesur cyfraniad y sefydliadau a reoleiddir at YE drwy ddefnyddio'r mesurau cenedlaethol ehangu mynediad yn gysylltiedig â MALIC ar gyfer ehangu mynediad, cyfraddau cadw a myfyrwyr rhan-amser:
- Nifer a chyfran y myfyrwyr israddedig o bob oed sy'n hanu o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru, sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC (mae pob myfyriwr israddedig, pob dull astudio, pob lefel a phob blwyddyn astudio wedi'u cynnwys);
 - Cyfran y myfyrwyr israddedig amser llawn mewn SAUau a SABau yng Nghymru na wnaethant adael cyn pen 50 diwrnod ar ôl cychwyn eu cwrs a oedd yn bresennol mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl eu blwyddyn mynediad, o blith myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC;
 - Cyfran y myfyrwyr rhan-amser ar eu gradd gyntaf mewn SAUau a SABau yng Nghymru na wnaethant adael cyn pen 50 diwrnod ar ôl cychwyn eu cwrs a oedd yn bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl eu blwyddyn mynediad, o blith myfyrwyr sy'n hanu o ddau gwintel isaf MALIC; ac
 - Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sydd yn gwneud hynny'n rhan-amser, ynghyd â'r newid canrannol o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn nifer y myfyrwyr rhan-amser hyn o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU (mesur y sector).

Grwpiau blaenoriaeth YE y sefydliadau a reoleiddir

58. Gan fod Partneriaethau YE yn gweithio gyda grwpiau blaenoriaeth hyd at AU lefel 4, gan gynnwys oedolion heb gymwysterau lefel 4, fel y nodir yn adran 5 uchod, rydym yn disgwyl i sefydliadau a reoleiddir weithio'n agos â'u

Partneriaethau rhanbarthol i gefnogi pobl sy'n byw yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ar gefnogi llywodraethu a chynllunio, cyflenwi ar y cyd, osgoi cystadleuaeth ddi-fudd, a sicrhau cymorth a threfniadau pontio effeithiol ar gyfer grwpiau blaenoriaeth YE i addysg uwch, a thrwy addysg uwch.

59. Disgwylir y bydd sefydliadau a reoleiddir yn cynyddu eu ffocws ar recriwtio a chadw pobl o gymunedau lleiafrifol ethnig sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch a phobl ag anableddau. Bydd y grwpiau blaenoriaeth hyn wedi'u halinio â chynlluniau gweithredu sefydliadau i gefnogi Hil, Mynediad a Llwyddiant mewn Addysg Uwch a chyfle cyfartal, a chyfrannu at gynlluniau cydraddoldeb strategol sefydliadau. Bydd disgwyl i sefydliadau hefyd gysoni gweithgareddau YE â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg, gan gynnwys diwylliannau Cymru.
60. Gall sefydliadau gefnogi grwpiau wedi'u tangynrychioli sy'n byw y tu allan i ranbarth eu Partneriaeth, gan gynnwys pobl sy'n byw yn nau gwintel isaf MALIC yn rhannau eraill o Gymru, pobl sydd wedi profi gofal a gofalwyr, pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, pobl sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â grwpiau eraill drwy gyllid eu cynllun mynediad a ffioedd, nad yw wedi'i neilltuo ar gyfer cymorth y Rhaglen YE ranbarthol,

Asesiad o ymrwymadau sefydliadau a reoleiddir

61. Fel partneriaid y Partneriaethau, rydym yn disgwyl i sefydliadau a reoleiddir gadarnhau bod eu gweithgareddau wedi'u hintegreiddio â gweithgareddau'r Partneriaethau YE, ac y bydd sefydliadau a Phartneriaethau'n gweithio ar y cyd.
62. Byddwn yn adolygu datganiadau o fwriad sefydliadau er mwyn deall sut y byddant yn cyfrannu at amcanion hirdymor o ran ehangu mynediad, ac o ran atal rhwystrau i grwpiau blaenoriaeth YE sydd wedi'u tangynrychioli fel eu bod yn gallu cael mynediad i addysg uwch, a llwyddo mewn addysg uwch.
63. Bydd dau aelod Cyngor a chynrychiolydd o UCM Cymru yn asesu datganiadau o fwriad sefydliadau yn rhan o broesau sicrwydd Ymgyrhaedd yn Ehangach, a byddwn yn adrodd y canfyddiadau a'r argymhellion gerbron ein Cyngor.

Cyflwyno datganiadau o fwriad sefydliadau a reoleiddir

64. Erbyn **28 Ionawr 2022** dylai sefydliadau a reoleiddir gyflwyno eu datganiad o fwriad inni. Dylid cyflwyno fersiwn electronig Microsoft Word o'r datganiad o fwriad inni drwy e-bost, i Amanda Phillips (amanda.phillips@hefcw.ac.uk), ynghyd â chopi o'r asesiad effaith cydraddoldeb.

Rhagor o wybodaeth

65. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Savanna Jones (e-bost savanna.jones@hefcw.ac.uk).

Asesu effaith ein polisïau

66. Datblygwyd y canllaw hwn gan ystyried yr egwyddor cynaliadwyedd, y nodau a'r ffyrdd o weithio yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn nodi pum ffordd o weithio a ddylai fod yn sail i ymagweddau'r Partneriaethau a'r sefydliadau, ac rydym yn disgwyl i gyflwyniadau YE adlewyrchu'r rhain.²
67. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, gan gynnwys dilyniant i astudiaethau lefel 4 cyfrwng Cymraeg a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant ein hunain. Gofynnwyd am ymatebion i ymgynghoriad (Hydref 2021) i ystyried effaith ein datblygiadau polisi ac rydym wedi ymateb i'r rhain yn **Atodiad C**.
68. Mae asesiad effaith wedi cael ei gynnal ar y materion yn y canllawiau hyn, a dyma oedd y canlyniadau:
- Ceir effaith gadarnhaol ar **oedran** gan fod YE yn agenda sy'n cynnwys pob oedran, ac rydym yn cynyddu ein disgwyliadau gan Bartneriaethau YE o ran ymgysylltu'n well ag oedolion heb gymwysterau lefel 4. Bydd y cyfnod hwn yn y strategaeth yn cynnwys ffocws ar ddysgu gydol oes, yn unol â [Bil](#) Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) .
 - Ceir effaith gadarnhaol ar **anabledd** a **hil** gan fod mwy o ffocws wedi'i gynnwys ar gyfer Partneriaethau a sefydliadau a reoleiddir, oherwydd effaith y pandemig a'r tarfu fu ar addysg pobl o gymunedau lleiafrifol ethnig a phobl ag anableddau.
 - Mae'n bosibl y ceir rhywfaint o effaith gadarnhaol ar **ryw** a **rhywedd**, er enghraifft gan fod Partneriaethau'n cael eu hannog i gyflawni gweithgareddau sy'n ymateb i anghydraddoldebau dysgu ee, merched mewn STEM.
 - Mae'n ofynnol i Bartneriaethau roi ystyriaeth i'r **Gymraeg** wrth gynnal gweithgareddau, cyflenwi darpariaethau a chynnig cyfleoedd. Dylai Partneriaethau gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y sefydliad arweiniol onid oes trefniadau eraill ar waith.
 - Ceir effaith gadarnhaol ar y **ddyletswydd economaidd-gymdeithasol** ar gymunedau a manau o ddiddordeb, oherwydd y ffocws ar ddau gwintel isaf MALIC.
 - Ceir effaith gadarnhaol ar **nodweddion sy'n rhyngblethu**, oherwydd fe'i defnyddir fel ffordd o dargedu'r rhai a chanddynt y mwyaf o angen cymorth lle gwelid bod yr anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy.

²Pum ffordd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

69. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

Cefndir Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach CCAUC

1. 'Ehangu mynediad i addysg uwch, a thrwy addysg uwch' yw'r ymadrodd a ddefnyddir gennym yng Nghymru i ddiffinio ein bwriadau strategol yn y maes polisi hwn, ac i fframio ein hamcanion strategol. Rydym yn cydnabod bod rhannau eraill o'r DU yn defnyddio termau gwahanol i flaenoriaethu amcanion gwahanol o ran ehangu mynediad.
2. Nod ehangu mynediad yw sicrhau cynhwysiant, dilyniant a llwyddiant mewn addysg uwch er mwyn galluogi dysgwyr ar draws pob ystod oedran a chefnidir, sy'n wynebu'r rhwystrau cymdeithasol ac economaidd mwyaf, i wireddu eu potensial fel myfyrwyr, dysgwyr cydol oes, dinasyddion a chyflogeion.
3. Mae gan CCAUC, fel Corff a Ariennir gan Lywodraeth Cymru, ddyletswyddau cydraddoldeb ac amrywiaeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, mae gan CCAUC gyfrifoldebau i weithio gyda darparwyr i gefnogi cyfle cyfartal a chynyddu nifer y bobl sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch. Mae ehangu mynediad i addysg uwch, a thrwy addysg uwch, yn cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol, symudedd cymdeithasol, iechyd a llesiant, gan gynnwys iechyd meddwl, sgiliau a ffyniant economaidd unigolion, cymunedau a Chymru.
4. Un o'r mecanweithiau a ddefnyddir gennym i ehangu mynediad at addysg uwch yw'r Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach (YE). Gwnaethom sefydlu'r Rhaglen YE yn 2002/03 fel rhaglen gydweithredol â ffocws rhanbarthol i'w gweithredu drwy Gymru am y tymor hirer mwyn ehangu mynediad i addysg uwch a sgiliau lefel uwch.
5. Nod y Rhaglen YE yw cynyddu mynediad at addysg uwch, cyfraddau cadw a llwyddiant mewn grwpiau a chymunedau â blaenoriaeth yng Nghymru, drwy godi dyheadau addysg a chynyddu sgiliau, a chreu cyfleoedd astudio arloesol a llwybrau dysgu i addysg uwch.
6. Mae'r Rhaglen YE yn cyfrannu at egwyddor, nodau a gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn enwedig y nod o greu Cymru sy'n fwy cyfartal, ymhlith nodau eraill. Mae'r Rhaglen YE hefyd yn cyfrannu at ymrwymiad CCAUC i 'weithredu'n unol ag ysbryd' dyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010; Pasiwyd y ddeddf hon gan Lywodraeth Cymru yn 2021.
7. Mae [Strategaeth Gorfforaethol CCAUC](#) o 2021/22, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Mae amcanion ein Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys *'Herio a chynorthwyo darparwyr addysg uwch i ddarparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n hygyrch a chynhwysol i bawb a allai elwa ar hynny, er mwyn bodloni, yn y tymor hir, anghenion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned leol, genedlaethol a byd-eang.'*

8. Mae [mesurau cenedlaethol](#) CCAUC yn ein cynorthwyo i fonitro perfformiad addysg uwch. Mae'r mesurau cenedlaethol ar gyfer ehangu mynediad yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch (ASau) a hefyd i sefydliadau addysg bellach (SABau) yng Nghymru, ac yn fesurau i'r sector ac i sefydliadau unigol oni nodir fel arall. Mae'r mesurau sydd wedi'u hadlewyrchu'n arbennig yn natblygiad y Rhaglen YE wedi'u rhestru isod:
- i. Nifer a chyfran y myfyrwyr israddedig o bob oed sy'n hangu o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru, sy'n hangu o ddau gwintel isaf MALIC (mae pob myfyriwr israddedig, pob dull astudio, pob lefel a phob blwyddyn astudio wedi'u cynnwys);*
 - ii. Cyfran y myfyrwyr israddedig amser llawn mewn SAUau a SABau yng Nghymru na wnaethant adael cyn pen 50 diwrnod ar ôl cychwyn eu cwrs a oedd yn bresennol mewn addysg uwch flwyddyn ar ôl eu blwyddyn mynediad, o blith myfyrwyr sy'n hangu o ddau gwintel isaf MALIC;*
 - iii. Cyfran y myfyrwyr rhan-amser ar eu gradd gyntaf mewn SAUau a SABau yng Nghymru na wnaethant adael cyn pen 50 diwrnod ar ôl cychwyn eu cwrs a oedd yn bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl eu blwyddyn mynediad, o blith myfyrwyr sy'n hangu o ddau gwintel isaf MALIC; a*
 - iv. Nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch mewn SAUau a SABau yng Nghymru sydd yn gwneud hynny'n rhan-amser, ynghyd â'r newid canrannol o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn nifer y myfyrwyr rhan-amser hyn o gymharu â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU (mesur y sector).*
9. Mae a wnelo'r mesurau cenedlaethol â nifer a chyfran yr holl fyfyrwyr o bob oed sy'n hangu o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n byw yn nau gwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ([MALIC](#)). Rhwng 2016/17 a 2019/20, cynyddodd nifer a chyfran y myfyrwyr israddedig o bob oed sy'n hangu o Gymru o fewn y mesur hwn o 21,620 i 23,475 o fyfyrwyr ac o 37.6% i 40.0%. Un o'r mecanweithiau a ddefnyddir gan sefydliadau i ehangu mynediad a chynhwysiant yw'r Rhaglen YE.

Ein proses ar gyfer datblygu ac ymgynghori ar strategaeth y Rhaglen Ymgynghori yn Ehangach, a chynnwys rhanddeiliaid yn hynny

Defnyddiwyd y canlynol yn sail ar gyfer cyfarwyddyd cyfnod strategaeth Ymgynghori yn Ehangach (YE) 2022-23 - 2024/25:

- cyngor gan Bartneriaethau YE, gan gynnwys Cadeiryddion Partneriaeth;
- arolwg ymgynghori cychwynnol o Bartneriaid YE, gan gynnwys Partneriaethau a sefydliadau;
- arweiniad gan bwyllgorau CCAUC, gan gynnwys y [Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad Myfyrwyr](#);
- adolygiad o gyfraniadau [cynlluniau mynediad a ffioedd](#) sefydliadau rheoledig i'r Rhaglen YE;
- adolygiad o ganfyddiadau gwerthusiad o YE wedi'i gomisiynu gan CCAUC;¹
- asesiad parhaus o'r effaith ar gydraddoldeb, gan roi ystyriaeth i nodweddion gwarchoddedig, nodau a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a'n dyletswyddau o ran y Gymraeg;
- ymgysylltiad ag unigolion sy'n arbenigo mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag ehangu mynediad mewn addysg uwch; ac
- [ymgynghoriad ar y Rhaglen YE 2022/23 - 2024/25](#).

¹ [Gwerthusiad o'r gweithgarwch ehangu mynediad a'r Fenter Ymgynghori yn Ehangach mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru](#) gan Arad Consulting Ltd (2007); [Adolygiad o strategaethau ehangu mynediad yn sefydliadau Cymru 2006/07 hyd 2008/09 a'r cynigion a gyllidwyd drwy Ymgynghori yn Ehangach](#) gan yr Academi Addysg Uwch (o dan arweiniad staff craidd yr AAU) (2009); [Adolygiad o strategaethau ehangu mynediad ac Ymgynghori yn Ehangach yng Nghymru](#) gan yr Academi Addysg Uwch (o dan arweiniad ymgynghorwyr AAU, Michael Hill a Sue Hatt) (2012); [Mynediad i Addysg Uwch yng Nghymru: Adroddiad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru](#) gan WISERD (Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru) (2015).

Crynodeb o sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ac ymateb CCAUC iddynt

1. Derbyniwyd pedwar ymateb ar ddeg i gylchlythyr ymgynghori'r Rhaglen Ymggyrredd yn Ehangach [W21/27HE](#). Rydym yn gwerthfawrogi'r holl ymatebion a gafwyd, ac wedi ystyried y rhain wrth gwblhau'r canllawiau hyn.
2. Darperir cwestiynau'r ymgynghoriad isod gyda chrynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd ac ymateb CCAUC iddynt. Mae pwyntiau tebyg a godwyd mewn ymateb i gwestiynau gwahanol wedi cael eu casglu o dan y cwestiwn mwyaf perthnasol er rhwyddineb wrth ymateb. Mewn rhai achosion, rydym wedi cynnwys pwyntiau a wnaed gan un ymatebydd a oedd yn arbennig o fuddiol yn ein barn ni. Ni argymhellwyd unrhyw newidiadau o bwys ac fe gafwyd ychydig o gytundeb ynghylch llywiau cryf ar gyfer trywyddau newydd y Rhaglen YE.

Cwestiwn 1a: Ydych chi'n cytuno y dylem gadw ac adeiladu ar rai o strwythurau a blaenoriaethau'r Rhaglen Ymggyrredd yn Ehangach, yn benodol: strwythur dwy golofn y Rhaglen Ymggyrredd yn Ehangach; grwpiau blaenoriaeth y Rhaglen Ymggyrredd yn Ehangach; cefnogi a hybu'r Gymraeg; a fframwaith cynnig cenedlaethol y Partneriaethau Ymggyrredd yn Ehangach a disgrifiad lefel uchel o ymyraethau?

3. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:
 - Cytunai'r tri ymateb ar ddeg y dylid cadw strwythur dwy golofn YE.
 - Cytunai naw ymateb y dylem gadw grwpiau blaenoriaeth y Rhaglen YE.
 - Nodwyd y dylem ychwanegu at y grwpiau blaenoriaeth mewn chwe ymateb, ac awgrymwyd pum grŵp blaenoriaeth newydd, gan gynnwys dysgwyr anabl, dysgwyr wedi ymddieithrio a dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.
 - Roedd naw ymateb yn cefnogi safbwynt y Rhaglen YE o ran hybu'r Gymraeg, gan gynnwys cyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.
 - Cytunai tri ymateb yn benodol y dylem gadw fframwaith y cynnig cenedlaethol.
 - Roedd un ymateb yn awgrymu y dylem ystyried sut y dylid datblygu llwybr YE ar-lein, hirdymor i astudio'n rhan-amser, ac ystyried effaith y pandemig.
 - Mewn un ymateb, nodwyd na fyddai modd cynnal gwerthusiad ystyrion eto o lwyddiant yr ymagwedd dwy golofn gan fod y pandemig wedi tarfu ar ddarpariaeth yr ymagwedd honno.
4. Ymateb CCAUC:
 - Byddwn yn cadw'r ymagwedd dwy golofn i gydnabod manteision cydweithredol ymagweddau aml-asiantaeth, gan sicrhau cydgysylltiad a

chysondeb rhwng y Partneriaethau a sefydliadau a reoleiddir. Dylai ymgysylltiad sefydliadau a reoleiddir â'r Rhaglen Ymggyrredd yn Ehangach sicrhau pontio effeithiol i addysg uwch, a thrwy addysg uwch.

- Byddwn yn cadw ac yn adeiladu ar grwpiau blaenoriaeth y Rhaglen YE i gynnwys mwy o ffocws ar ddysgwyr ag anabledau ac o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn nau gwintel isaf MALIC.
- Byddwn yn adolygu ac yn cadw'r cynnig cenedlaethol YE ac yn ei gyfleu'n gliriach.

Cwestiwn 1b: Os nad ydych, dywedwch pam wrthym ac esbonio'n gryno sut y dylai'r strwythurau a'r blaenoriaethau newid?

5. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Mewn un ymateb, awgrymwyd y dylai Partneriaethau adolygu eu strwythurau staffio er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben.
- Mewn un ymateb arall, awgrymwyd y dylid cynnwys symud ymlaen i ddysgu cyfrwng Cymraeg lefel 4 fel targed.
- Mewn un sylw, cyfeiriwyd at fwch anfwriadol ymhlith pobl ifanc 18-20 oed nad oeddent wedi'u cynnwys yn y diffiniad o 'oedolyn sy'n fyfyrwr aeddfed' i dderbyn cymorth.
- Mewn un sylw, nodwyd bod partneriaid sy'n gweithredu ar raddfa Cymru'n gallu wynebu heriau oherwydd gwahaniaethau rhwng blaenoriaethau'r Partneriaeth leol a darpariaeth a gwahanol aliniadau strategol rhwng Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

6. Ymateb CCAUC:

- Byddwn yn annog Partneriaethau i adolygu eu strwythurau'n rheolaidd ac ar ddechrau cyfnod y strategaeth, a pharhau i sicrhau trefniadau cyfathrebu priodol rhwng partneriaid Partneriaethau ynghylch blaenoriaethau.
- Mae dysgu cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth YE, ac rydym yn annog y Partneriaethau i roi ystyriaeth i hyn wrth ddefnyddio pob dull a chyfrwng darparu.
- Mae ein diffiniad o oedolion yn cynnwys pobl ifanc 18-21 oed, er ein bod yn cydnabod bod y diffiniad o 'fyfyrwr aeddfed' yn berthnasol i oedolion dros 21 oed.

Cwestiwn 2a: Os bydd y Partneriaethau Ymggyrredd yn Ehangach yn blaenoriaethu pob grŵp oedran blaenoriaeth y Rhaglen Ymggyrredd yn Ehangach, o fewn eu rhanbarth, hyd at ddysgu Lefel 4, a fydd hynny'n dwyn buddion, neu'n arwain at ganlyniadau anfwriadol o bosib?

7. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Nid oedd unrhyw gonsensws ymhlith y sylwadau ynghylch a ddylai Partneriaethau YE gefnogi pobl ifanc hyd at 16 oed neu 18 oed.
- Mewn un ymateb, awgrymwyd y byddai un pwynt cyswllt gan y Partneriaethau yn ddefnyddiol ar gyfer y darparwyr addysg uwch rhanbarthol.
- Mewn dau ymateb, awgrymwyd bod ffocws Partneriaethau ar weithio gyda dysgwyr hyd at 16 oed yn golygu bod modd mabwysiadu ymagwedd fwy targededig at ddysgwyr, ac y gallai arwain at lai o gystadleuaeth rhwng partneriaid.
- Mewn un ymateb, awgrymwyd bod gan bartneriaid YE addysg bellach fynediad rhwyddach at bobl ifanc 16-18 oed a'u bod yn gallu eu cefnogi'n fwy effeithiol drwy'r Partneriaethau YE na thrwy weithgareddau wedi'u cyllido gan YE a gynhelir gan sefydliadau a reoleiddir.
- Mewn un ymateb, nodwyd bod heriau'n gysylltiedig â'r aliniad rhwng ardaloedd Partneriaethau YE a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- Mewn un ymateb, nodwyd y gallai newidiadau i'r terfynau grŵp oedran ar gyfer Partneriaethau a sefydliadau a reoleiddir olygu bod llai o ffocws ar ddysgwyr lefel 3. Mae dysgwyr lefel 3 ar hyn o bryd o fewn cylch gwaith sefydliadau a reoleiddir yn hytrach na'r Partneriaethau YE.

8. Ymateb CCAUC:

- Byddwn yn disgwyl i'r Partneriaethau ymgysylltu â phobl ifanc hyd at 18 oed yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn ogystal ag oedolion heb gymwysterau lefel 4.

Cwestiwn 2b: Os bydd y sefydliadau'n rhoi ffocws newydd i gyfraniad eu cynlluniau mynediad a ffioedd i'r Rhaglen Ymgynghoriad yn Ehangach, a fydd hynny'n dwyn buddion, neu'n arwain at ganlyniadau anfwriadol o bosib?

9. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Mewn un ymateb, awgrymwyd ei bod hi'n bosibl na fyddai ysgolion yn ymateb yn llawn i ystod ehangach o grwpiau blaenoriaeth.
- Roedd un ymateb yn awgrymu y byddai rhoi ffocws newydd i'w hymrwymiaid i'r Rhaglen YE yn esgor ar fuddion clir i sefydliadau.
- Mewn un ymateb awgrymwyd y byddai'n fwy gwerthfawr cynnwys dysgwyr rhwng 16-21 o fewn portffolio'r Partneriaethau YE er mwyn sicrhau dilyniant clir gyda chefnogaeth YE.
- Roedd un ymateb yn awgrymu y gallai cynyddu'r grwpiau blaenoriaeth roi gormod o faich ar adnoddau YE.

10. Ymateb CCAUC:

- Mae canllawiau CCAUC yn disgwyl i gyfraniadau cynlluniau mynediad a ffioedd i'r Rhaglen YE ategu, hyrwyddo, cefnogi a chyd-fynd â chynlluniau a darpariaeth y Partneriaethau, gan osgoi ail-wneud gwaith heb fod angen.

Cwestiwn 3: Ym mha ffyrdd eraill y gellid gwella strwythurau a blaenoriaethau'r Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach, a beth yw'r dystiolaeth o hyn?

11. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Roedd un ymateb yn awgrymu y dylai Partneriaethau ymestyn eu gweithgareddau i gynnwys pobl ifanc hyd at 20 oed heb gymwysterau lefel 4 mewn meysydd â blaenoriaeth, yn ogystal ag oedolion heb gymwysterau lefel 4.
- Roedd dau ymateb yn awgrymu y byddai'n dda cael gwell aliniad rhwng grwpiau blaenoriaeth YE a grwpiau wedi'u tangynrychioli mewn AU.
- Roedd un ymateb yn croesawu ymgysylltiad gwell rhwng y Partneriaethau ac yn amlygu buddion gwaith ar draws Partneriaethau, y gellid ei gynyddu yng nghyfnod nesaf y strategaeth.
- Mewn dau o'r ymatebion awgrymwyd y byddai'n fuddiol rhannu arfer da drwy un llwyfan.
- Awgrymodd un ymateb y dylid sefydlu 'grŵp cyfarwyddwyr ehangu mynediad' i hwyluso agendâu sefydliadol ac YE.
- Mewn un ymateb, awgrymwyd y dylai strwythurau YE wella datblygiad a darpariaeth cyfleoedd am brentisiaeth.
- Awgrymai un ymateb y dylai CCAUC arwain systemau olrhain effeithiol er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith hirdymor y rhaglen YE.

12. Ymateb CCAUC:

- Byddwn yn parhau i annog cydweithio ar draws y Partneriaethau YE, gan gynnwys drwy gyflwyno prosesau adolygu cymheiriaid, fel yr argymhellwyd gan ein Pwyllgor Cyfleoedd a Phrofiadau Myfyrwyr (PCPhM) yn sail ar gyfer gwaith monitro blynyddol ac i rannu arferion.
- Byddwn yn disgwyl i ddatganiadau o fwriad y sefydliadau a reoleiddir ymrwmo i gyfrannu tuag at strategaethau a chynlluniau gweithredu'r Partneriaethau YE, ac adeiladu ar y rheiny.

Cwestiwn 4: Sut y dylem fesur perfformiad y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach, gan gynnwys cyfraniadau'r Partneriaethau a'r sefydliadau addysg uwch, at ehangu mynediad i addysg uwch?

13. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Roedd pedwar ymateb yn awgrymu y dylid olrhain dysgwyr drwy'r Rhaglen YE gan gynnwys eu deiliant dysgu yn nhermau mynychu addysg uwch. Byddai'n well defnyddio'r un system ar gyfer yr holl Bartneriaethau.
- Mewn un ymateb nodwyd y dylid parhau i gasglu data ac adrodd ar ddata yn flynyddol.
- Mewn un ymateb nodwyd y dylid gwerthuso'r holl weithgareddau a rhaglenni i gynnwys agweddau cyfranogwyr at addysg prifysgol a lefel uwch, cyn ac ar ôl unrhyw ymyraethau.
- Mewn dau ymateb, awgrymwyd y dylai perfformiad y Partneriaethau fod yn seiliedig ar ymgysylltiad dysgwyr neu fynediad at addysg uwch ar raddfa'r DU, yn hytrach nag ar berfformiad recriwtio MALIC y sefydliad.
- Roedd un ymateb yn awgrymu y dylid parhau â'r ffocws cenedlaethol ar y cynnig cenedlaethol.
- Mewn tri ymateb awgrymwyd y byddai tystiolaeth o hanesion llwyddiannus drwy astudiaethau achos yn cyfrannu at dystiolaeth ansoddol.
- Roedd un ymateb yn awgrymu bod ymgysylltu dros y tymor hir ag ysgolion yn fesur effeithiol.

14. Ymateb CCAUC:

- Byddwn yn parhau i fynnu bod Partneriaethau yn cyflwyno adroddiadau monitro blynyddol inni gan gynnwys tystiolaeth feintiol ac ansoddol.
- Byddwn yn parhau i annog Partneriaethau i arddangos ymgysylltiadau hirdymor â grwpiau blaenoriaeth YE.
- Byddwn yn parhau i annog sefydliadau a reoleiddir i ymgysylltu â'r un dysgwyr sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Partneriaethau YE, i gefnogi trefniadau pontio a dilyniant effeithiol. Rydym yn cydnabod y gallai trosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) gynnig cyfleoedd i wella'r data olrhain.

Cwestiwn 5: Sut y gellid defnyddio cyllid y Rhaglen Ymgynghoriad yn Ehangach yn fwy effeithiol i ehangu mynediad i addysg uwch yn gydweithredol, yn rhanbarthol ac ar draws Cymru gyfan?

15. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Mewn dau ymateb, nodwyd y byddai cydweithio pellach rhwng y Partneriaethau a'r sefydliadau'n cael ei groesawu.
- Roedd dau ymateb yn awgrymu y byddai cael mwy o staff cymorth yn galluogi mwy o ddarpariaeth.

- Awgrymai pedwar ymateb y byddai cryfhau hunaniaeth y brand yn cryfhau proffil YE.
- Mewn un ymateb, awgrymwyd y dylid buddsoddi mewn trefniadau allanol i fonitro a gwerthuso prosesau a gweithdrefnau YE.
- Mewn un ymateb, awgrymwyd y dylai'r Rhaglen YE roi mwy o flaenoriaeth i'r Gymraeg.
- Roedd un ymateb yn awgrymu y dylai Partneriaethau gyflawni cynlluniau mentora rhanbarthol wedi'u targedu at unigolion o grwpiau tangynrychioledig er mwyn gwella'r ymgysylltiad â dysgu lefel uwch.

16. Ymateb CCAUC:

- Byddwn yn disgwyl aliniad clir rhwng gwaith sefydliadau a gwaith Partneriaeth, ac y caiff unrhyw gystadleuaeth ddi-fudd ei hosgoi.
- Byddwn yn cynnwys cynlluniau mentora yng nghynnig cenedlaethol y Partneriaethau YE.
- Byddwn yn parhau i ddefnyddio gwerthuswyr allanol i adolygu Ehangu Mynediad a'r Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach, a hefyd yn disgwyl i Partneriaethau gynnal adolygiadau cymheiriaid yn sail ar gyfer y broses monitro ac er mwyn rhannu arferion.
- Byddwn yn annog y Partneriaethau i hyrwyddo'r brand YE presennol yn fwy effeithiol, a'i gryfhau, wrth inni symud tuag at drosglwyddo i'r Comisiwn newydd ac i strwythur newydd ar gyfer addysg ôl-orfodol.

Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw adborth pellach nad oedd yn hawdd ei gynnwys yn yr atebion i'r cwestiynau uchod?

17. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Mewn un ymateb, nodwyd ei bod hi'n bwysig datblygu strategaethau sy'n ystyriol o effaith y pandemig ar ddarpariaeth.
- Roedd un ymateb yn awgrymu y dylai'r Rhaglen YE ganolbwyntio mwy ar weithio gyda phobl ifanc â nodweddion gwarchoddedig yn nau gwintel isaf MALIC.
- Roedd un ymateb yn awgrymu manteision cael cytundeb grant YE yn sail ar gyfer cytundebau â phartneriaid.

18. Ymateb CCAUC:

- Byddwn yn nodi'r disgwyliadau o ran ymateb Partneriaethau YE i agenda Adnewyddu a Diwygio Llywodraeth Cymru i gefnogi llesiant, trefniadau pontio a dilyniant dysgwyr, gan gynnwys cefnogi sefyllfaoedd lle ceir tarfu ar ddysgu.

- Byddwn yn disgwyl i YE ganolbwyntio mwy ar gefnogi dysgwyr â blaenoriaeth o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a phobl ag anableddau.

Cwestiwn 7: A fydd y cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac egwyddor datblygu cynaliadwy, saith nod llesiant, a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?

19. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Mewn pum ymateb, awgrymwyd bod y Rhaglen YE yn cyfrannu mewn modd effeithiol at bum ffordd o weithio a saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig o ran creu Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru â diwylliant bywiog a Chymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Mewn un ymateb, nodwyd bod gan y Rhaglen YE ran allweddol i'w chwarae o ran galluogi pobl i wireddu eu potensial a chwarae rhan allweddol yn nyfodol cynaliadwy Cymru.
- Mewn un ymateb, awgrymwyd bod y ffyrdd o weithio a'r nodau yn y Ddeddf yn ategu gwaith ehangach y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- Roedd un ymateb yn awgrymu y dylid canolbwyntio mwy ar helpu ysgolion i gael mynediad at addysg uwch ran-amser.

20. Ymateb CCAUC:

- Byddwn yn disgwyl i'r Rhaglen YE gael effaith gadarnhaol ar yr egwyddor, y nodau a'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Byddwn yn annog mwy o ffocws ar helpu oedolion i gael mynediad at addysg uwch ran-amser a dysgu gydol oes.

Cwestiwn 8: Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol fydd y cynigion yn eu cael ar y canlynol:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?; a***
- pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?***

21. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Mewn un ymateb nodwyd y dylid rhoi cyfle i grwpiau â blaenoriaeth ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau YE, drwy gydweithio mwy â sefydliadau a all gynnig gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mewn un sylw, nodwyd bod blaenoriaethu dau gwintel isaf MALIC a dysgwyr cyfrwng Gymraeg yn her o safbwynt nodweddion sy'n rhyngblethu.

22. Ymateb CCAUC:

- Byddwn yn parhau i ddisgwyl i'r Rhaglen YE gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys ym maes dysgu ac addysgu, a byddwn yn herio Partneriaethau i arddangos darpariaeth glir yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Cwestiwn 9: A ellid newid y cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol, ar y canlynol:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?; a***
- pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?***

23. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad:

- Mewn un ymateb awgrymwyd y dylai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ymwneud yn fwy â'r Partneriaethau YE i gynnig cymorth a chyfleoedd i gydweithio ar brosiectau YE targededig.
- Mewn un ymateb awgrymwyd y dylid cynnal ystod ehangach o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mewn un ymateb, nodwyd y gellid cael cyfleoedd pellach i rannu adnoddau ac enghreifftiau diddorol o ymarfer.

24. Ymateb CCAUC:

- Byddwn yn annog Partneriaethau YE i ymgysylltu'n llawn â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel partner cenedlaethol YE.
- Byddwn yn disgwyl i Partneriaethau arddangos ymrwymiad strategol i gynnal gweithgareddau dwyieithog a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, ac i nodi hynny yn eu cynlluniau gweithredu.

Y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach: Cynnig Cenedlaethol Partneriaethau YE

1. Cyflwynwyd cynnig cenedlaethol y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach gyda strategaeth YE 2014/15. Y cynnig cenedlaethol yw fframwaith cyflawni YE, a dylai Partneriaethau ei ddefnyddio i esbonio'u darpariaeth wrth bob partner a dysgwr, ac wrth CCAUC
2. Rydym yn ail-gadarnhau ac yn cryfhau'r cynnig cenedlaethol yng nghyfnod strategaeth 2022/23 - 2024/25 er mwyn galluogi Partneriaethau, partneriaid a dysgwyr i fod yn gliriach a manylach ynghylch y ddarpariaeth gynigir yn eu rhanbarth.
3. Yn bennaf, mae'n rhaid i gynnig cenedlaethol y Partneriaethau gynnwys ymyraethau a nodwyd fel arfer da wrth ehangu mynediad, drwy dystiolaeth o'r DU neu ryngwladol.
4. Bwriedir i flaenoriaethau'r cynnig cenedlaethol fod yn flaenoriaethau lefel uchel. Drwy hynny, bydd modd i Partneriaethau weithio'n hyblyg oddi mewn iddynt er mwyn ymateb i anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol ac ymgysylltu â dysgwyr o bob oed. Yn y cyfnod hwn o fewn y strategaeth, dylai gweithgareddau cynnig cenedlaethol y Partneriaethau gyfrannu at y canlynol, ac ymateb i'r canlynol:
 - Y blaenoriaethau a nodwyd yn y [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#) gan gynnwys fel y bôn't yn berthnasol i ddysgu gydol oes, y genhadaeth ddinesig a chyfle cyfartal;
 - [Canllawiau Adnewyddu a Diwygio](#) Llywodraeth Cymru i gefnogi sefyllfaoedd lle ceir tarfu ar ddysgu, pontio a dilyniant drwy'r system addysg; a
 - [Datblygiadau Cwricwlwm i Gymru](#) .
5. Yn ogystal â hyn, pwrpas y Rhaglen YE genedlaethol o hyd yw:
 - cyfrannu mewn modd strategol at flaenoriaethau a mesurau ehangu mynediad CCAUC, ac alinio â blaenoriaethau cenedlaethol drwy gynnig darpariaeth gyson ledled Cymru;
 - cefnogi cyfle cyfartal a chynyddu cynrychiolaeth mewn addysg bellach ac uwch;
 - sicrhau bod arfer arloesol, rhagorol o ansawdd uchel yn hygyrch ledled Cymru;
 - galluogi CCAUC a'r sector i adolygu cynnydd a pherfformiad mewn meysydd sy'n allweddol o ran ehangu mynediad; a
 - chyfrannu at gydlyniant y brand YE er mwyn hyrwyddo'r Rhaglen YE yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac ar draws y DU.

6. Mae gan y cynnig cenedlaethol bum blaenoriaeth:

- i. **Cefnogi pontio** i gynyddu hyder, dilyniant, dysgu gydol oes a llwyddiant. Gall y ddarpariaeth hon gynnwys ymyraethau cynradd i uwchradd, trosglwyddiadau pwysig rhwng cyfnodau allweddol, dysgu fel teulu ac ymgysylltu â theuluoedd a dysgu oedolion, dilyniant o AB i AU, cyrsiau byr, hyrwyddo llwybrau dilyniant 14-19;
- ii. **Helpu i godi dyheadau addysg** i gynyddu cymhelliant, cyfraddau cadw a dilyniant. Gall darpariaeth gynnwys gweithio gydag ysgolion, colegau a chymunedau, gweithgareddau dysgu fel teulu ac ymgysylltu, ymyraethau i atal dysgwyr rhag troi'n NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), gweithio gyda rhai y mae potensial iddynt ymddieithrio o fydd addysg neu hyfforddiant, gweithgareddau i gael profiad o fywyd a dysgu mewn prifysgol;
- iii. **Gwella sgiliau addysgol** er mwyn galluogi dysgwyr i wireddu eu potensial academaidd a bod yn barod am addysg bellach ac/neu uwch. Gall darpariaeth gynnwys cymorth ar gyfer sgiliau pwnc-benodol ac/neu gyffredinol, clybiau ar ôl yr ysgol, mentora, adolygu ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch, dosbarthiadau meistr, darpariaeth breswyl.
- iv. **Hyrwyddo sgiliau galwedigaethol a chyflogadwyedd** i annog uwchsgilio a dyheadau gyrfa, gan gynnwys mynediad at brentisiaethau a'r proffesiynau. Gallai'r ddarpariaeth gynnwys partneriaethau rhwng ysgolion/y Bartneriaeth/cyflogwyr yn gysylltiedig â chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac agendâu cenhadaeth ddinesig, codi ymwybyddiaeth ynghylch y byd gwaith, cyfleoedd cyffredinol a galwedigaethol, datblygu'r gweithlu, llwybrau at brentisiaethau ac addysg bellach ac addysg uwch ran-amser.
- v. **Hyrwyddo cyfle cyfartal ac ymagweddau cynhwysol** i bobl sydd wedi profi gofal, gofalgwyr a phobl ag anableddau. Gallai'r ddarpariaeth gynnwys cymorth i gymunedau lleiafrifol ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, teithwyr a sipsiwn, pobl ag anableddau ac/neu weithio gyda dynion gwyn ifanc o'r dosbarth gweithiol. Cyflenwir darpariaeth ar gyfer grwpiau a nodwyd o dan flaenoriaeth pump drwy'r blaenoriaethau uchod.

7. Gellir bodloni Pedwar Diben Cwricwlwm i Gymru: creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu drwy'r pum blaenoriaeth uchod.

8. Mae'r pum maes â blaenoriaeth a restrir uchod ar gyfer y cynnig cenedlaethol yn cyfrannu at bedwar diben Cwricwlwm Cymru er mwyn helpu dysgwyr i ddatblygu'n:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd;

- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

9. Rydym yn ystyried bod y pedwar diben yn berthnasol i bobl o bob oed.
10. Dylai gweithgareddau a gynhelir o dan flaenoriaethau'r cynnig cenedlaethol gyfrannu at chwe maes dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru wrth weithio gydag ysgolion, sef:
 - y celfyddydau mynegiannol, gan gynnwys celf, dawn, ffilm, drama, cerddoriaeth, y cyfryngau digidol;
 - iechyd a llesiant, gan gynnwys corff iach, meddwl iach, perthnasoedd iach, gwneud penderfyniadau da mewn bywyd;
 - y Dyniaethau, gan gynnwys hanes, daearyddiaeth, crefydd, gwerthoedd, moeseg, busnes, astudiaethau cymdeithasol;
 - leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;
 - Mathemateg a Rhifedd; a
 - Gwyddoniaeth a thechnoleg, gan gynnwys natur a grymoedd naturiol.
11. Yn sail ar gyfer pob un o'r pum blaenoriaeth yn y cynnig cenedlaethol, dylid darparu gwybodaeth a chynghor am addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant a chyflogadwyedd graddedigion.
12. Dylai cynnig cenedlaethol Ymgynraedd yn Ehangach roi ystyriaeth i ystod o ddulliau darparu, gan gynnwys dysgu rhan-amser a dysgu hyblyg, darpariaeth ar-lein a wyneb yn wyneb, darpariaeth allgymorth yn y gymuned a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.